

Rheoliadau drafft a osodwyd gerbron Senedd Cymru o dan baragraff 1(8) o Atodlen 7 i Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018, i'w cymeradwyo drwy benderfyniad gan Senedd Cymru.

OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU DRAFFT

2022 Rhif (Cy.)

**YMADAEL Â'R UNDEB
EWROPEAIDD, CYMRU**

**IECHYD PLANHIGION,
CYMRU**

HADAU, CYMRU

Rheoliadau Iechyd Planhigion etc.
(Ffioedd) (Diwygio) (Cymru)
(Ymadael â'r UE) (Rhif 2) 2022

NODYN ESBONIADOL

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)

Mae'r Rheoliadau hyn wedi eu gwneud drwy arfer y pwerau a roddir gan baragraff 7(2) o Atodlen 4 a pharagraff 21(b) o Atodlen 7 i Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018 (p. 16). Maent yn diwygio Rheoliadau Iechyd Planhigion etc. (Ffioedd) (Cymru) 2018 (O.S. 2018/1179) (Cy. 238) ("Rheoliadau 2018").

Yn benodol, mae Rheoliadau 2018 wedi eu diwygio—

- (a) mewn perthynas â'r ffioedd sy'n daladwy gan fewnforiwr llwyth sy'n tarddu o drydedd wlad mewn cysylltiad â gwiriad ffisegol a gwiriad adnabod o blanhigion, cynhyrchion planhigion neu wrthrychau eraill, er mwyn adlewyrchu pa mor aml y cynhelir gwiriadau ffisegol a gwiriadau adnabod o blanhigion, cynhyrchion planhigion a gwrthrychau eraill o'r fath. Mae'r diwygiadau yn cynnwys darparu ar gyfer ffi unfurf mewn cysylltiad â phlanhigion penodol sydd i'w plannu a

newidiadau i gategoriâu planhigion, a chynhyrchion planhigion, penodol; a

- (b) er mwyn estyn yr esemptiad rhag talu ffioedd sy'n daladwy fel arall mewn cysylltiad â gwasanaethau tystysgrifau a chyn-allforio ar lwythi o dan amgylchiadau penodol hyd 31 Rhagfyr 2023.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, ystyriwyd nad oedd yn angenrheidiol cynnal asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn.

Rheoliadau drafft a osodwyd gerbron Senedd Cymru o dan baragraff 1(8) o Atodlen 7 i Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018, i'w cymeradwyo drwy benderfyniad gan Senedd Cymru.

OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU DRAFFT

2022 Rhif (Cy.)

**YMADAEL Â'R UNDEB
EWROPEAIDD, CYMRU**

**IECHYD PLANHIGION,
CYMRU**

HADAU, CYMRU

Rheoliadau Iechyd Planhigion etc.
(Ffioedd) (Diwygio) (Cymru)
(Ymadael â'r UE) (Rhif 2) 2022

Gwnaed

Yn dod i rym

22 Gorffennaf 2022

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau hyn drwy arfer y pwerau a roddir gan baragraff 7(2) o Atodlen 4 a pharagraff 21(b) o Atodlen 7 i Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018(1).

Gosodwyd drafft o'r offeryn hwn gerbron Senedd Cymru ac fe'i cymeradwywyd ganddi drwy benderfyniad yn unol â pharagraff 1(8) o Atodlen 7 i'r Ddeddf honno(2).

-
- (1) 2018 p. 16; gweler paragraff 8 o Atodlen 4 am ystyr "appropriate authority". Diwygiwyd paragraff 21 o Atodlen 7 gan adran 41(4) o Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Y Cytundeb Ymadael) 2020 (p. 1) a pharagraffau 38 a 53(2) o Atodlen 5 iddi.
- (2) Mae'r cyfeiriad yn Neddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018 at Gynulliad Cenedlaethol Cymru bellach yn cael effaith fel cyfeiriad at Senedd Cymru yn rhinwedd adran 150A(2) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32).

Enwi a chychwyn

1. Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Iechyd Planhigion etc. (Ffioedd) (Diwygio) (Cymru) (Ymadael â'r UE) (Rhif 2) 2022 a deuant i rym ar 22 Gorffennaf 2022.

Diwygio Rheoliadau Iechyd Planhigion etc. (Ffioedd) (Cymru) 2018

2.—(1) Mae Rheoliadau Iechyd Planhigion etc. (Ffioedd) (Cymru) 2018(1) wedi eu diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn rheoliad 3 (ffioedd arolygu mewnforio)—

(a) ym mharagraff (1)—

- (i) yn lle'r geiriau “a ddisgrifir yn” rhodder “sy'n dod o fewn”;
- (ii) hepgorer y geiriau o “neu unrhyw beiriannau” hyd at y diwedd;

(b) yn lle paragraff (2A) rhodder—

“(2A) Yn ddarostyngedig i baragraffau (2B), (2C) a (2E), y ffioedd sy'n daladwy gan fewnforiwr llwyth o drydedd wlad mewn cysylltiad ag atebolrwydd am wiriad ffisegol a gwiriad adnabod y caniateir eu cynnal ar y llwyth (pa un a gynhelir unrhyw wiriad o'r fath ai peidio) yw, pan fo llwyth yn cynnwys planhigion, cynhyrchion planhigion neu wrthrychau eraill o ddisgrifiad a bennir yng ngholofn 1 o'r tabl, sy'n tarddu o wlad a bennir yn y cofnod cyfatebol yng ngholofn 2 o'r tabl—

- (a) y ffi a bennir yng ngholofn 3 o'r tabl mewn cysylltiad â gwiriad ffisegol o blanhigion, cynhyrchion planhigion neu wrthrychau eraill o bob disgrifiad o'r fath a geir yn y llwyth; a
- (b) y ffi a bennir yng ngholofn 4 o'r tabl mewn cysylltiad â gwiriad adnabod o blanhigion, cynhyrchion planhigion neu wrthrychau eraill o bob disgrifiad o'r fath a geir yn y llwyth.”;

(c) yn lle paragraff (2B) rhodder—

“(2B) Mae'r ffioedd a bennir o dan baragraff (2A) mewn cysylltiad ag atebolrwydd i gynnal gwiriad ffisegol a gwiriad adnabod o flodau wedi eu torri, ffrwythau, llyisiau neu ddail yn daladwy mewn cysylltiad ag un lot o'r math o dan sylw.”;

(d) yn lle paragraff (2C) rhodder—

(1) O.S. 2018/1179 (Cy. 238), a ddiwygiwyd gan O.S. 2019/1378 (Cy. 244), O.S. 2020/44 (Cy. 5), O.S. 2020/1628 (Cy. 342), O.S. 2021/713 (Cy. 181) ac O.S. 2022/149 (Cy. 47).

“(2C) Pan fo llwyth yn cynnwys dau neu ragor o blanhigion, cynhyrchion planhigion neu wrthrychau eraill sy’n dod o fewn un categori a bennir yng ngholofn 1 o’r tabl, y ffi sy’n daladwy o dan baragraff (2A) mewn cysylltiad ag atebolrwydd i gynnal gwiriad ffisegol neu wiriad adnabod o’r planhigion, y cynhyrchion planhigion neu’r gwrthrychau eraill o fewn y categori o dan sylw yw—

(a) i’r graddau y mae’r llwyth yn cynnwys dau neu ragor o lotiau naill ai o flodau wedi eu torri neu o ffrwythau, llyisiau neu ddail—

(i) y ffi sy’n daladwy mewn cysylltiad ag un lot o flodau wedi eu torri neu o ffrwythau, llyisiau neu ddail (yn ôl y digwydd); neu

(ii) pan bennir symiau gwahanol mewn perthynas â’r lotiau o dan sylw, ffi sy’n cyfateb i’r ffi uchaf mewn perthynas ag atebolrwydd am wiriad ffisegol neu wiriad adnabod (yn ôl y digwydd);

(b) i’r graddau y mae’r llwyth yn cynnwys unrhyw blanhigion eraill, unrhyw gynhyrchion planhigion neu unrhyw wrthrychau eraill sy’n tarddu o’r un wlad—

(i) y ffi sy’n daladwy mewn cysylltiad ag un planhigyn, cynnyrch planhigion neu wrthrych arall o unrhyw un o’r disgrifiadau o dan sylw; neu

(ii) pan bennir symiau gwahanol mewn perthynas â’r planhigion, y cynhyrchion planhigion neu’r gwrthrychau eraill hynny, ffi sy’n cyfateb i’r ffi uchaf mewn perthynas ag atebolrwydd i wiriad ffisegol neu wiriad adnabod (yn ôl y digwydd).”;

(e) hepgorer paragraff (2D);

(f) yn lle paragraff (2E) rhodder—

“(2E) Nid yw ffi yn daladwy o dan baragraff (2A) mewn cysylltiad ag unrhyw lwyth sy’n tarddu o un o Aelod-wladwriaethau’r UE, Liechtenstein neu’r Swistir a fewnforir cyn diwedd y cyfnod graddoli trosiannol, mewn cysylltiad ag unrhyw blanhigion neu gynhyrchion planhigion a bennir yn Atodlen 2A a geir yn y llwyth hwnnw.”

(g) ar ôl paragraff (2E), mewnosoder—

“(2F) Pan fo arolygydd yn amau bod llwyth o drydedd wlad wedi ei heintio â phla planhigion a reolir ac yn cymryd sampl o’r llwyth er mwyn cynnal profion labordy i gadarnhau pa un a yw’r pla yn bresennol, y ffi sy’n daladwy gan fewnforiwr y llwyth o drydedd wlad yw £147.35 ar gyfer pob sampl a brofir.

(2G) At ddibenion y rheoliad hwn, y tabl ac Atodlen 2A—

- (a) ystyr “dail” yw llyisiau, perlaysiau a sbeisys, i’r graddau y maent ar ffurf dail gyda neu heb goesynnau neu goesau ynghlwm, a dail rhydd unrhyw blanhigion eraill;
- (b) ystyr “llyisiau”, ac eithrio yn is-baragraff (a), yw llyisiau ac eithrio i’r graddau y maent ar ffurf dail.”;

(h) yn lle paragraff (3) rhodder—

“(3) Yn y rheoliad hwn—

- (a) ystyr “categori”, mewn perthynas ag unrhyw beth a bennir yng ngholofn 1 o’r tabl yn Atodlen 1, yw grŵp a restrir yng ngholofn 1 mewn print trwm;
- (b) ystyr “pla planhigion a reolir” yw pla cwarantyn Prydain Fawr, pla cwarantyn Prydain Fawr dros dro, pla cwarantyn ardal sy’n rhydd rhag plâu neu bla nad yw’n bla cwarantyn Prydain Fawr a reoleiddir⁽¹⁾;
- (c) ystyr “disgrifiad”, mewn perthynas ag unrhyw beth a bennir yng ngholofn 1 o’r tabl yn Atodlen 1, yw’r disgrifiad penodol y pennir ffi mewn cysylltiad ag ef;
- (d) ystyr “lot” yw un uned neu ragor o un nwydd, y gellir ei adnabod drwy gydrywiaeth ei gyfansoddiad a’i darddiad, sy’n ffurfio rhan o lwyth;
- (e) ystyr “y tabl” yw’r tabl yn Atodlen 1;
- (f) ystyr “llwyth o drydedd wlad” yw llwyth a gyflwynir i Gymru o drydedd wlad;
- (g) mae i “y cyfnod graddoli trosiannol” yr ystyr a roddir i “the transitional staging period” yn Atodiad 6 i Reoliad (EU) 2017/625 Senedd Ewrop a’r Cyngor ar

(1) Diffinnir “GB quarantine pest”, “GB regulated non-quarantine pest”, “PFA quarantine pest” a “provisional GB quarantine pest” yn Erthygl 2(32), (33), (37) a (40), yn y drefn honno, o EUR 2016/2031 (a ddiwygiwyd gan O.S. 2020/1482). Mae’r diffiniadau hynny yn gymwys at ddibenion O.S. 2018/1179 (Cy. 238) yn rhinwedd rheoliad 2(2) o’r O.S. hwnnw.

reolaethau swyddogol a gweithgareddau swyddogol eraill a gyflawnir i sicrhau y cymhwysir y gyfraith o ran bwyd a bwyd anifeiliaid, rheolau ynghylch iechyd a lles anifeiliaid, iechyd planhigion a chynhyrchion diogelu planhigion(1).”.

(3) Yn rheoliad 5A (gwasanaethau tystysgrifau allforio a gwasanaethau cyn-allforio: ffioedd), ym mharagraff (4B), yn lle “2022” rhodder “2023”.

(4) Yn lle Atodlen 1, rhodder yr Atodlen 1 a geir yn Atodlen 1 i'r Rheoliadau hyn.

(5) Hepgorer Atodlenni 1A a 2.

(6) Yn lle Atodlen 2A, rhodder yr Atodlen 2A a geir yn Atodlen 2 i'r Rheoliadau hyn.

Enw

Y Gweinidog Newid Hinsawdd, un o Weinidogion

Cymru

Dyddiad

(1) EUR 2017/625. Mewnosodwyd Atodiad 6 gan O.S. 2020/1481 ac fe'i diwygiwyd gan O.S. 2021/429, O.S. 2021/809, O.S. 2021/1096 ac O.S. 2021/1443.

ATODLEN 1

Rheoliad 3(4)

“ATODLEN 1

Rheoliad 3(2A) a (2C)

Ffioedd arolygu mewnforio

<i>Colofn 1</i> <i>Categori a disgrifiad o blanhigyn, cynnyrch planhigion neu wrthrych arall</i>	<i>Colofn 2</i> <i>Gwlad tarddiad</i>	<i>Colofn 3</i> <i>Ffi: Gwiriad ffisegol (£)</i>	<i>Colofn 4</i> <i>Ffi: Gwiriad adnabod (£)</i>
Bylbiau, cormau, rhisomau, cloron (ac eithrio cloron tatws), winwns, sialóts, garlleg, cennin a llysiau garllegaid eraill, planhigion cwsg, nad ydynt mewn swbstrad			
<i>Pob genera</i> a fwriedir ar gyfer eu plannu, ac eithrio cynhyrchu blodau masnachol, a nas bwriedir ar gyfer defnyddwyr terfynol ⁽¹⁾	Unrhyw drydedd wlad	205.04	5.25
<i>Pob genera</i> a fwriedir ar gyfer eu plannu, ac a fwriedir ar gyfer cynhyrchu blodau masnachol, neu ar gyfer defnyddwyr terfynol ⁽¹⁾	Unrhyw drydedd wlad	20.50	0.52
Toriadau, eginblanhigion, a fwriedir ar gyfer eu plannu, nad ydynt wedi eu pennu neu eu cynnwys mewn lle arall yn y tabl hwn			
<i>Pob genera</i>	Unrhyw drydedd wlad	32.15	1.57
Planhigion prenaidd⁽²⁾ (ac eithrio unrhyw rai a bennir neu a gynhwysir mewn lle arall yn y tabl hwn), a fwriedir ar gyfer eu plannu			
<i>Pob genera</i>	Unrhyw drydedd wlad	32.15	1.57
Planhigion nad ydynt yn breunaidd⁽³⁾ (ac eithrio unrhyw rai a bennir neu a gynhwysir mewn lle arall yn y tabl hwn), a fwriedir ar gyfer eu plannu, ac a fwriedir ar gyfer defnyddwyr terfynol⁽¹⁾			
<i>Pob genera</i>	Unrhyw drydedd wlad	32.15	1.57
Planhigion dan do⁽⁴⁾			
<i>Pob genera</i>	Unrhyw drydedd wlad	32.15	1.57
Planhigion eraill a fwriedir ar gyfer eu plannu, nad ydynt wedi eu pennu neu eu cynnwys mewn lle arall yn y tabl hwn			

<i>Pob genera</i>	Unrhyw drydedd wlad	32.15	1.57
Blodau wedi eu torri			
<i>Dendranthema</i> (DC.) Des Moul. (<i>Chrysanthemum</i> L.)	Unrhyw un o Aelod-wladwriaethau'r UE, Liechtenstein neu'r Swistir	1.28	0.15
	Colombia neu Ecuador	21.37	2.62
	Unrhyw drydedd wlad ac eithrio un o Aelod-wladwriaethau'r UE, Colombia, Ecuador, Liechtenstein neu'r Swistir	2.13	0.26
<i>Eryngium</i> Tournier ex Linnaeus.	Unrhyw un o Aelod-wladwriaethau'r UE, Liechtenstein neu'r Swistir	1.28	0.15
	Unrhyw drydedd wlad ac eithrio un o Aelod-wladwriaethau'r UE, Liechtenstein neu'r Swistir	4.27	0.52
<i>Lisianthus</i> L.	Unrhyw drydedd wlad	4.27	0.52
<i>Rosa</i> L.	Unrhyw un o Aelod-wladwriaethau'r UE, Colombia, Ecuador, Liechtenstein neu'r Swistir	1.28	0.15
	Canada, India, Mecsico neu UDA	21.37	2.62
	Unrhyw drydedd wlad ac eithrio un o Aelod-wladwriaethau'r UE, Canada, Colombia, Ecuador, India, Liechtenstein, Mecsico, y Swistir neu UDA	2.13	0.26
<i>Solidago</i> L.	Unrhyw un o Aelod-wladwriaethau'r UE, Liechtenstein neu'r Swistir	1.28	0.15
	Unrhyw drydedd wlad ac eithrio un o Aelod-wladwriaethau'r UE, Liechtenstein neu'r Swistir	4.27	0.52
<i>Genera eraill nad ydynt wedi eu pennu neu eu cynnwys mewn lle arall</i>	Unrhyw un o Aelod-wladwriaethau'r UE,	1.28	0.15

<i>yn y tabl hwn</i>	Liechtenstein neu'r Swistir		
	Unrhyw drydedd wlad ac eithrio un o Aelod-wladwriaethau'r UE, Liechtenstein neu'r Swistir	2.13	0.26
Canghennau gyda deiliant, rhannau o goed conwydd (ac eithrio rhisgl neu goed Nadolig wedi eu torri)			
<i>Pob genera</i>	Unrhyw un o Aelod-wladwriaethau'r UE, Liechtenstein neu'r Swistir	1.01	0.15
	Unrhyw drydedd wlad ac eithrio un o Aelod-wladwriaethau'r UE, Liechtenstein neu'r Swistir	1.69	0.26
Ffrwythau, llysiau, dail			
<i>Momordica L.</i>	Unrhyw un o Aelod-wladwriaethau'r UE, Liechtenstein neu'r Swistir	1.59	0.15
	Unrhyw drydedd wlad ac eithrio un o Aelod-wladwriaethau'r UE, Liechtenstein neu'r Swistir	26.55	2.62
<i>Ocimum L.</i>	Unrhyw un o Aelod-wladwriaethau'r UE, Liechtenstein neu'r Swistir	2.15	0.15
	Unrhyw drydedd wlad ac eithrio un o Aelod-wladwriaethau'r UE, Liechtenstein neu'r Swistir	35.84	2.62
<i>Solanaceae Juss. (ac eithrio <i>Solanum tuberosum</i> L.)</i>	Unrhyw un o Aelod-wladwriaethau'r UE, Liechtenstein neu'r Swistir	1.59	0.15
	Unrhyw drydedd wlad ac eithrio un o Aelod-wladwriaethau'r UE, Liechtenstein neu'r Swistir	26.55	2.62
<i>Solanum melongena L.</i>	Unrhyw un o Aelod-wladwriaethau'r UE, Liechtenstein neu'r	1.59	0.15

	Swistir		
	Twrci	15.93	1.57
	Unrhyw drydedd wlad ac eithrio un o Aelod-wladwriaethau'r UE, Liechtenstein, y Swistir neu Dwrci	2.65	0.26
<i>Genera neu rywogaethau eraill o ffrwythau neu lysiau nad ydynt wedi eu pennu neu eu cynnwys mewn lle arall yn y tabl hwn</i>	Unrhyw un o Aelod-wladwriaethau'r UE, Liechtenstein neu'r Swistir	1.59	0.15
	Unrhyw drydedd wlad ac eithrio un o Aelod-wladwriaethau'r UE, Liechtenstein neu'r Swistir	2.65	0.26
<i>Dail eraill nad ydynt wedi eu pennu neu eu cynnwys mewn lle arall yn y tabl hwn</i>	Unrhyw un o Aelod-wladwriaethau'r UE, Liechtenstein neu'r Swistir	2.15	0.15
	Unrhyw drydedd wlad ac eithrio un o Aelod-wladwriaethau'r UE, Liechtenstein neu'r Swistir	3.58	0.26
Hadau (ar gyfer eu hau), meithriniad meinwe			
<i>Pob genera, ar gyfer treialon neu brofi</i>	Unrhyw drydedd wlad	12.81	0.52
<i>Brassicaceae</i> (ac eithrio ar gyfer treialon neu brofi)	Yr Ariannin, Awstralia, Bolivia, Brasil, Chile, Seland Newydd neu Uruguay	128.13	5.25
	Unrhyw drydedd wlad ac eithrio'r Ariannin, Awstralia, Bolivia, Brasil, Chile, Seland Newydd neu Uruguay	6.40	0.26
<i>Capsicum</i> spp. L. (ac eithrio ar gyfer treialon neu brofi)	Unrhyw drydedd wlad	128.13	5.25
<i>Poaceae</i> (ac eithrio ar gyfer treialon neu brofi)	Yr Ariannin, Awstralia, Bolivia, Brasil, Chile, Seland Newydd neu Uruguay	128.13	5.25
	Unrhyw drydedd wlad ac eithrio'r Ariannin, Awstralia, Bolivia, Brasil, Chile, Seland	6.40	0.26

	Newydd neu Uruguay		
<i>Secale</i> L. (ac eithrio ar gyfer treialon neu brofi)	Affganistan, India, Iran, Irac, Mecsico, Nepal, Pacistan, De Affrica neu UDA	128.13	5.25
	Unrhyw drydedd wlad ac eithrio Affganistan, India, Iran, Irac, Mecsico, Nepal, Pacistan, De Affrica neu UDA	6.40	0.26
<i>Solanum lycopersicum</i> L. (ac eithrio ar gyfer treialon neu brofi)	Unrhyw drydedd wlad	128.13	5.25
<i>Solanum tuberosum</i> L. (Gwir had) (ac eithrio ar gyfer treialon neu brofi)	Unrhyw drydedd wlad	128.13	5.25
<i>Trifolium</i> spp. (ac eithrio ar gyfer treialon neu brofi)	Yr Ariannin, Awstralia, Bolivia, Brasil, Chile, Seland Newydd neu Uruguay	128.13	5.25
	Unrhyw drydedd wlad ac eithrio'r Ariannin, Awstralia, Bolivia, Brasil, Chile, Seland Newydd neu Uruguay	6.40	0.26
<i>Triticum</i> L. (ac eithrio ar gyfer treialon neu brofi)	Affganistan, India, Iran, Irac, Mecsico, Nepal, Pacistan, De Affrica neu UDA	128.13	5.25
	Unrhyw drydedd wlad ac eithrio Affganistan, India, Iran, Irac, Mecsico, Nepal, Pacistan, De Affrica neu UDA	6.40	0.26
X <i>Triticosecale</i> Wittm. ex A. Camus (ac eithrio ar gyfer treialon neu brofi)	Affganistan, India, Iran, Irac, Mecsico, Nepal, Pacistan, De Affrica neu UDA	128.13	5.25
	Unrhyw drydedd wlad ac eithrio Affganistan, India, Iran, Irac, Mecsico, Nepal, Pacistan, De Affrica neu UDA	6.40	0.26
<i>Genera neu rywogaethau eraill nad ydynt wedi eu pennu neu eu cynnwys mewn lle arall yn y tabl hwn</i>	Unrhyw drydedd wlad	6.40	0.26
Grawn (ac eithrio hadau ar gyfer eu hau)			
<i>Secale</i> L.	Affganistan, India, Iran, Irac, Mecsico, Nepal, Pacistan, De	142.98	5.25

	Affrica neu UDA		
<i>Triticum L.</i>	Affganistan, India, Iran, Irac, Mecsico, Nepal, Pacistan, De Affrica neu UDA	142.98	5.25
X <i>Triticosecale</i> Wittm. ex A. Camus	Affganistan, India, Iran, Irac, Mecsico, Nepal, Pacistan, De Affrica neu UDA	142.98	5.25
Cloron tatws			
<i>Solanum tuberosum L.</i> (tatws hadyd)	Unrhyw drydedd wlad	156.69	5.25
<i>Solanum tuberosum L.</i> (tatws bwyta)	Yr Aiff, Gwlad Pwyl, Portiwgal neu Rwmania	78.34	2.62
	Sbaen	156.69	5.25
	Unrhyw drydedd wlad ac eithrio'r Aiff, Gwlad Pwyl, Portiwgal, Rwmania neu Sbaen	4.70	0.15
Coed Nadolig wedi eu torri (llai na 3 metr o uchder)			
<i>Pob genera</i>	Unrhyw un o Aelod-wladwriaethau'r UE, Liechtenstein neu'r Swistir	3.58	0.15
	Unrhyw drydedd wlad ac eithrio un o Aelod-wladwriaethau'r UE, Liechtenstein neu'r Swistir	5.98	0.26
Peiriannau neu gerbydau sydd wedi eu gweithredu at ddibenion amaethyddol neu goedwigaeth	Unrhyw drydedd wlad	5.98	0.26

(1) Ystyr "a fwriedir ar gyfer defnyddwyr terfynol" yw y'i bwriedir, drwy dystiolaeth o'r pecyn, y label neu drwy ddulliau eraill, i'w gyflenwi yn uniongyrchol i ddefnyddwyr terfynol.

(2) Ystyr "planhigion prenaidd" yw planhigion sydd â choesyn prenaidd neu rhannol brennaidd, ac mae'n cynnwys pob coeden, deunydd lluosogi goedwigaeth (ac eithrio had), llwyni a phalmwydd, a'r gwinwydd a'r perlysiâu lluosflwydd hynny sydd â choesyndau prenaidd neu rannol brennaidd; ac at y diben hwn mae "perlysiâu lluosflwydd" yn golygu perlysiâu y mae eu hoedran cyfartalog yn fwy na dwy flynedd.

(3) Ystyr "planhigion nad ydynt yn brennaidd" yw planhigion nad ydynt yn blanhigion prenaidd.

(4) Ystyr "planhigion dan do" yw planhigion yr ymddengys o'u pecyn, eu label neu drwy ddulliau eraill y'u bwriedir i'w cyflenwi'n uniongyrchol i ddefnyddwyr terfynol i'w defnyddio o dan do neu i'w defnyddio mewn acwaria.

ATODLEN 2 Rheoliad 3(6)

“ATODLEN 2A Rheoliad 3(2E)

Rhestr o blanhigion a chynhyrchion
planhigion sy'n tarddu o un o
Aelod-wladwriaethau'r UE,
Liechtenstein neu'r Swistir sy'n
ddarostyngedig i ffioedd ar gyfer
gwiriadau ffisegol a gwiriadau
adnabod o ddiwedd y cyfnod
graddoli trosiannol

1. Canghennau gyda deiliant, rhannau o goed conwydd ac eithrio rhisgl a choed Nadolig wedi eu torri.

2. Coed Nadolig wedi eu torri.

3. Blodau wedi eu torri.

4. Ffrwythau.

5. Grawn, ac eithrio hadau ar gyfer eu hau.

6. Dail.

7. Hadau ac eithrio—

(a) hadau—

(i) *Allium cepa* L.,

(ii) *Allium porrum* L.,

(iii) *Castanea* Mill.,

(iv) *Capsicum* spp. L.,

(v) *Helianthus annuus* L.,

(vi) *Medicago sativa* L.,

(vii) *Phaseolus cocineus*.,

(viii) *Phaseolus vulgaris* L.,

(ix) *Solanum lycopersicum* L.,

(x) *Solanum tuberosum* L. (Hadau tatws gwirioneddol).

(b) hadau llysiâu *Pisum sativum* L. a *Vicia faba* L.

(c) hadau planhigion olew a ffibr—

(i) *Brassica napus* L.,

(ii) *Brassica rapa* L.,

(iii) *Sinapis alba* L.,

(iv) *Glycine max* (L.) Merrill,

(v) *Linum usitatissimum* L.

8. Llysiau.”